# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1311(HER) a gyhoeddwyd gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, ar 8 Rhagfyr 2010

**At Chris Franks:**

Cyfeiriaf at fy ymrwymiad i chi yn ystod Cyfarfod Llawn i gael eglurhad am y cyfleusterau ar gyfer pobl anabl yng Nghanolfan Hamdden y Barri.

Mae fy swyddogion wedi siarad â swyddogion Cyngor Bro Morgannwg sydd wedi nodi ei fod yn un o'r ychydig gyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd ag ystafelloedd 'Lleoedd Newid' penodedig ac mae eu cyfleusterau yn hygyrch i gwsmeriaid anabl yn eu barn hwy.

Er nad oes teclyn codi yn ystafelloedd newid Canolfan Hamdden y Barri, fe'm hysbyswyd bod teclyn codi wrth ochr y pwll ac ystafell newid 'Lleoedd Newid' benodedig i bobl anabl wrth ochr y pwll. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn nodi bod y cyfleusterau yng Nghanolfannau Hamdden y Bont-faen a Phenarth wedi'u haddasu ar gyfer pobl ag anableddau difrifol.

Gobeithio bod hyn yn helpu i egluro'r sefyllfa.